

## PETTINGALL, JOHN (1708 - 1781), hynafiaethydd

**Enw:** John Pettingall  
**Dyddiad geni:** 1708  
**Dyddiad marw:** 1781  
**Rhiant:** Francis Pettingale  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** hynafiaethydd  
**Maes gweithgaredd:** Hanes a Diwylliant  
**Awdur:** Walter Thomas Morgan

Ganwyd 1708, mab Francis Pettingall, ficer Casnewydd-ar-Wysg. Ymaelododd yng Ngholeg Iesu, Rhydychen, 15 Mawrth 1725, a graddiodd yn B.A. yn 1728; cafodd y radd o M.A. yng Nghaergrawnt yn 1740, a D.D. yn ddiweddarach. Bu am rai blynyddoedd yn bregethwr yng nghapel Duke Street, Westminster. Penodwyd ef, 3 Mehefin 1757, yn brebendari yn eglwys gadeiriol S. Paul, Llundain, a gwnaed ef, 28 Gorffennaf 1758, yn brebendari yn Lincoln. Etholwyd ef yn F.S.A. yn 1752, a darllenodd dri phapur o flaen y gymdeithas. Cyhoeddodd *A Dissertation on the Origin of the Equestrian Figure of George and of the Garter*, 1753; *The Latin Inscription on the Copper Table discovered in the year 1732, near Heraclea*, 1760; *A Dissertation upon the Tascia or Legend of the British Coins of Cunobelin and Others*, 1763; a *An Enquiry into the use and Practice of Juries among the Greeks and Romans*, 1769. Cyfieithodd hefyd *Discours Historique et Critique des Principaux Auteurs qui ont écrit pour ou contre le Christianisme* gan A. C. F. Houtteville, gyda rhagair a nodiadau, 1739. Bu farw tua diwedd 1781.

### Awdur

Walter Thomas Morgan, (1912 - 1990)

### Ffynonellau

*Oxford Dictionary of National Biography*

*The Gentleman's Magazine*, 1781, 442

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: [54511822](#)

Wikidata: [Q6252700](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC-RUU/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

